Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Canllawiau Gofynion Tystiolaethol:

## Canllaw i Fyfyrwyr ar Ddarparu Tystiolaeth

2024/25

## Cynnwys

1. Cyd-destun a Phwrpas ........ 1
2. Enghreifftiau o dystiolaeth dderbyniol bellach ........ 2

## 1. Cyd-destun a Phwrpas

1.1 Y gweithdrefnau allweddol lle gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth yw'r weithdrefn Apeliadau Academaidd, a'r weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (ECs). Fodd bynnag, efallai y bydd gweithdrefnau eraill lle byddwch yn ystyried cyflwyno tystiolaeth, a dylech gyfeirio at y canllawiau hyn at y dibenion hynny.

1.2 Lle bynnag y bo modd, y math gorau o dystiolaeth yw tystiolaeth ddogfennol annibynnol (gweler y rhestr enghreifftiau isod); fodd bynnag, os na allwch ddarparu'r ddogfennaeth honno yna mae'n rhaid i chi:

i. Rhoi adroddiad llawn am eich amgylchiadau esgusodol. Mae'r adroddiad hwn yn dystiolaeth ynddo'i hun a dylech sicrhau ei bod yn cael ei hesbonio'n llawn.

ii. Rhoi resymau llawn pam na allwch gyflwyno tystiolaeth bellach; dylech roi adroddiad llawn am yr amgylchiadau y daethoch ar eu traws ac esbonio pam a sut y maent wedi effeithio arnoch.

iii. Nodi'n glir unrhyw dystiolaeth y gallech fod yn aros amdani.

iv. Nodi'r dyddiad, os yw'n berthnasol, yr ydych yn disgwyl gallu cyflwyno unrhyw ddogfennaeth annibynnol ddisgwyliedig.

1.3 Dyma rai canllawiau cyffredinol sy'n berthnasol i'r holl adroddiadau / tystiolaeth a gyflwynir:

i. Dylid dyddio eich adroddiad am y digwyddiadau a thystiolaeth arall.

ii. Dylai nodi'r dyddiadau y mae'n berthnasol iddynt (pa gyfnod o amser a gwmpesir).

iii. Dylai unrhyw dystiolaeth ddogfennol ychwanegol ymwneud â'r wybodaeth a ddarparwyd yn eich ffurflen am yr hyn sydd wedi digwydd; pryd y digwyddodd a sut yr effeithiwyd arnoch.

iv. Os yw'n dod gan sefydliad, dylai fod ar ei bapur pennawd (hyd yn oed os yw'n ddogfen pdf neu Word) a chynnwys rhif ffôn llinell dir neu gyfeiriad e-bost swyddogol lle gellir cysylltu â nhw (os oes angen lle mae'n anghyflawn neu fel arall yn agored i amheuaeth) i ddilysu'r dystiolaeth.

1.4 Gall Undeb y Myfyrwyr (SUAdvice@Wrecsam.ac.uk) eich cefnogi i drefnu eich adroddiad a/neu dystiolaeth addas i'w chyflwyno. Gweler yr enghreifftiau o dystiolaeth bellach yn adran 2 y ddogfen hon. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a gellir derbyn tystiolaeth arall.

1.5 Os ydych yn cyflwyno hawliad amgylchiadau esgusodol yn seiliedig ar afiechyd (nad yw'n gysylltiedig â gwaethygiad anabledd hirdymor yn y tymor byr), gellid darparu llythyr neu nodyn ffitrwydd gan ymarferydd meddygol priodol hefyd os gallwch wneud hynny. Dylid cael y llythyr neu'r nodyn ffitrwydd hwn fel arfer yn ystod cyfnod y salwch.

1.6 Rhaid i dystiolaeth fel arfer fod yn Gymraeg/Saesneg neu yn yr iaith wreiddiol gyda chyfieithiad ardystiedig i'r Saesneg/Cymraeg. Fel arfer dylai dogfennau gael eu cyfieithu gan:

i. Cyfieithydd proffesiynol (rhaid anfon anfoneb ffurfiol am wasanaeth y cyfieithydd sy'n cynnwys ei gymwysterau ffurfiol gyda'r cyfieithiad).
ii. Aelod o staff academaidd neu wasanaethau proffesiynol a gyflogir gan y Brifysgol neu gan Brifysgol arall (rhaid anfon llythyr ffurfiol gyda'r cyfieithiad, ar bapur pennawd y Brifysgol, yn rhoi manylion y cyfieithydd).
iii. Chi fydd yn talu unrhyw gostau cyfieithu ac eithrio'r cyfieithiad rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ac i'r gwrthwyneb.

**Ni fwriedir i'r canllawiau hyn fod yn hollgynhwysfawr, ac mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod neu dderbyn tystiolaeth fel y gwêl yn briodol, o fewn y cyd-destun ar y pryd, ac yn unol â'r cynnwys a gyflwynwyd.**

1.7 Dylai'r dystiolaeth a ddarperir fod yn amserol gyda'r cyfnod yr effeithir arno gan yr amgylchiadau esgusodol; bydd hyn fel arfer yn y cyfnod asesu/cyflwyno (neu'n union cyn hynny). Mewn rhai achosion, gall yr amgylchiadau esgusodol fod wedi effeithio ar gyfnod o addysgu/dysgu cyn yr asesiad ac os felly, mae angen i chi nodi hyn yn glir ar eich hawliad amgylchiadau esgusodol. Os yw'r amgylchiadau esgusodol yn cwmpasu cyfnod llawer hirach, rhaid i chi fod yn glir ynghylch hyn ac esbonio pam.

## 2. Enghreifftiau o dystiolaeth dderbyniol bellach

2.1 Wrth gyflwyno cais ECs neu Apêl Academaidd, sicrhewch eich bod yn llenwi pob adran o'r ffurflen ac yn dilyn y canllawiau a ddarperir. Dylech ddarparu tystiolaeth ategol lle gallwch, ac mewn amgylchiadau lle na allwch ddarparu tystiolaeth, dylech esbonio'r rhesymau'n glir.

2.2 Eich cyfrifoldeb chi yw darparu adroddiad priodol a/neu dystiolaeth gyda'ch hawliad amgylchiadau esgusodol neu apêl academaidd. Mae hefyd yn bwysig bod **eich adroddiad** ac unrhyw **dystiolaeth yn ymwneud â'r effaith arnoch chi lle bo modd**.

2.3 **Sylwch na fydd Cadeirydd y Panel ECs/Apêl yn cysylltu ag eraill, naill ai unigolion neu sefydliadau, i gael tystiolaeth ar eich rhan, neu i drafod eich achos. Eich cyfrifoldeb CHI yw casglu'r dystiolaeth angenrheidiol.**

2.4 Mae'r tabl isod yn dangos enghreifftiau o'r hyn a fydd fel arfer yn cael ei ystyried fel amgylchiad esgusodol, ac yn y pen draw os caiff ei gyflwyno'n ôl-weithredol, yn sail ar gyfer apêl; mae'r tabl hwn at ddibenion arweiniad ac nid yw'n rhestru'r holl seiliau ar gyfer ECs/apeliadau. Pob Myfyriwr (gan gynnwys Myfyrwyr Partner) Os ydych yn ansicr a fyddai eich sefyllfa yn cael ei hystyried fel amgylchiadau esgusodol, dylech gysylltu â Chanolfan Gynghori Undeb y Myfyrwyr drwy SUAdvice@wrexham.ac.uk.

| Amgylchiadau | Gwybodaeth Ychwanegol | Enghreifftiau o Dystiolaeth |
|---|---|---|
| **Amgylchiadau personol neu emosiynol acíwt** | Mae angen i'ch adroddiad a/neu dystiolaeth gadarnhau natur yr amgylchiadau a'r effaith y mae'n ei chael ar eich gallu i ymgymryd ag asesiad ffurfiol a/neu astudio. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  • Llythyr gan Feddyg Teulu (neu weithiwr cyswllt lle bo'n briodol ee gwasanaethau iechyd meddwl; gwasanaethau trais domestig ac ati);<br>  • Cwnselydd allanol;<br>  • Datganiad gan wasanaeth cymorth;<br>  • Datganiadau ategol a ysgrifennwyd gan, ac yn ôl disgresiwn, aelod o staff y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr. Er enghraifft, eich Tiwtor Personol, aelod o staff eich cwrs, aelod o un o'n timau Cymorth i Fyfyrwyr, neu rywun o Dîm Staff Craidd Undeb y Myfyrwyr. |
| **Profedigaeth** | Dylai'r brofedigaeth fod yn gysylltiedig â marwolaeth aelod agos o'r teulu neu ffrind agos. Rhaid i'ch hawliad esbonio'n glir natur y berthynas rhyngoch chi a'r person a fu farw a sut yr effeithiwyd ar eich gallu i astudio. Mae hyn yn hanfodol lle nad yw'r berthynas o fewn eich teulu agos (fel llys-riant cu, cefnder) neu os nad oes cysylltiad teuluol (fel marwolaeth ffrind).<br><br>Fel arfer, bydd hawliadau sy'n ymwneud â phrofedigaeth yn cael eu derbyn ar gyfer y tymor y digwyddodd y farwolaeth ynddo. Os ydych wedi cael eich effeithio'n sylweddol am | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  • Tystysgrif marwolaeth;<br>  • Llythyr gan weithiwr proffesiynol annibynnol (nid aelod o'r teulu) y mae'n rhaid iddo gynnwys ei fanylion cyswllt a'i farn ar ba mor agos yw eich perthynas â'r ymadawedig, neu<br>  • ysgrif goffa o bapur newydd / gwefan neu gyfryngau sefydliadol eraill (nid fel arfer cyfrif cyfryngau cymdeithasol unigol) neu drefn gwasanaeth angladd<br>  • Os ydych wedi cael eich effeithio am fwy o amser, efallai y bydd angen tystiolaeth ychwanegol o'r effaith barhaus (er enghraifft llythyr gan feddyg teulu neu gwnselydd prifysgol). |

| Amgylchiadau | Gwybodaeth Ychwanegol | Enghreifftiau o Dystiolaeth |
|---|---|---|
| | gyfnod hwy na'r tymor, gwnewch hyn yn glir yn eich cais. | |
| **Gofal plant (arholiadau neu asesiadau yn y dosbarth yn unig)** | Dylai hyn fod yn wirioneddol anrhagweladwy a lle bo'n bosibl, dylai fod tystiolaeth, er enghraifft gofal plant wedi'i archebu a gafodd ei ganslo ar fyr rybudd. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  • Llythyr gan ddarparwr gofal plant cofrestredig yn manylu ar yr amgylchiadau |
| **Mynychu'r llys yn y DU (nid gwasanaeth rheithgor – gweler isod)** | Os oes angen i chi fynychu'r llys fel tyst, diffynnydd, achwynydd, neu achwynwr. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  • Gohebiaeth swyddogol gan y llys yn cadarnhau eich presenoldeb; neu<br>  • Llythyr cyfreithiwr yn manylu ar natur a dyddiadau'r achos cyfreithiol a'ch gofyniad i fod yn bresennol. |
| **Trosedd** | **Dioddefwr trosedd:** Lle mae effaith y drosedd wedi arwain at fater meddygol, yna mae angen llythyr gan weithiwr meddygol proffesiynol priodol, neu er enghraifft, gan Wasanaeth Cwnsela'r Brifysgol, i gadarnhau'r effaith y mae'r drosedd wedi'i chael/yn ei chael ar eich astudiaethau. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  • Yn dibynnu ar natur y drosedd, naill ai:<br>  • Datganiad ysgrifenedig o ddigwyddiadau wedi'i ategu gan dystiolaeth ysgrifenedig gan yr heddlu, gan gynnwys rhif trosedd; neu<br>  • Cais yswiriant dyddiedig perthnasol. |
| | **Yn cael eich ymchwilio gan yr heddlu**: mae'r cyhuddiad o drosedd yn arwain naill ai at afiechyd neu effaith ddifrifol arall arnoch chi. | • Tystiolaeth o ofyniad gan yr Heddlu i ymgysylltu â nhw fel rhan o'u hymchwiliadau; |

| Amgylchiadau | Gwybodaeth Ychwanegol | Enghreifftiau o Dystiolaeth |
|---|---|---|
| | | • Llythyr gan weithiwr meddygol proffesiynol priodol, neu gan staff y Brifysgol (Arweinydd Cwrs neu Diwtor Modiwl neu Diwtor Personol er enghraifft); neu'r tîm Myfyrwyr a Bywyd Campws i gadarnhau'r effaith y mae'r ymchwiliad wedi'i gael/yn ei gael ar eich astudiaethau. Sylwch fod llythyrau gan staff y Brifysgol ac UM yn cael eu darparu yn ôl eu disgresiwn. |
| **Amhariad domestig** | Dylech fod yn glir iawn ynghylch sut mae hyn yn berthnasol i'ch astudiaethau a beth fu'r effaith. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>• Llythyr gan weithiwr neu awdurdod proffesiynol annibynnol yn disgrifio'r amgylchiadau perthnasol a sut y gallent fod wedi effeithio ar eich astudiaethau. |
| **Cyflogaeth** | Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser ac mae ymrwymiad gwaith **annisgwyl** neu **eithriadol** yn codi, gall hyn gael ei ystyried yn amgylchiad esgusodol. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>• Llythyr ar bapur pennawd gan eich cyflogwr yn manylu ar yr amgylchiadau annisgwyl neu eithriadol. |
| **Salwch, anaf neu driniaeth feddygol aelod o'r teulu gan gynnwys iechyd meddwl** | Disgwylir i hyn fod yn berthnasol i **anaf difrifol** neu **salwch plentyn, brawd neu chwaer, rhiant, priod, neu bartner**. Byddai angen esboniad a/neu dystiolaeth i gefnogi eich rôl fel y prif ofalwr a/neu agosrwydd y berthynas er mwyn ystyried anaf difrifol neu salwch aelod ehangach o'r teulu (fel rhiant cu, modryb, ewythr ac ati) neu ffrind agos. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>• tystysgrif feddygol neu lythyr gan weithiwr meddygol proffesiynol annibynnol yn cadarnhau natur a difrifoldeb amgylchiadau'r teulu.<br>• Os yn bosibl, byddai unrhyw dystiolaeth ychwanegol ynghylch yr effaith y mae'n ei chael ar eich gallu i ymgymryd â'r asesiad yn |

| Amgylchiadau | Gwybodaeth Ychwanegol | Enghreifftiau o Dystiolaeth |
|---|---|---|
| | | ddefnyddiol. |
| **Problemau ariannol** | Os ydych chi'n teimlo bod yr argyfwng costau byw yn cael effaith arnoch chi a'ch astudiaethau. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>◦ Nodyn meddygol ar gyfer straen;<br>◦ Llythyr gan Wasanaeth Cymorth y Brifysgol yn ymwneud â straen a/neu ymgysylltu â nhw oherwydd anawsterau ariannol;<br>◦ Cais i'r gronfa Caledi;<br>◦ Biliau/hawliadau terfynol;<br>◦ Llythyrau yn diddymu cyllid ee ysgoloriaeth;<br>◦ Dogfennau yn ymwneud â throi allan a/neu achos llys. |
| **Iechyd meddwl cyfnewidiol neu gyflyrau meddygol hirdymor** | Os yw'r cyflwr yn barhaus, dylech gofrestru gyda'r Tîm Cynhwysiant (i drafod unrhyw addasiadau rhesymol priodol a chymorth y gellir eu cynnig) a fydd yn cadarnhau a chefnogi bod gennych gyflwr iechyd meddwl cyfnewidiol a/neu gyflwr meddygol hirdymor.<br><br>DS os yw'ch cyflwr eisoes wedi'i gofrestru'n llawn gyda'r Tîm Cynhwysiant, a'i fod yn waethygiad tymor byr o'r cyflwr hwnnw, mae'n bosibl na fydd angen i chi ddarparu tystiolaeth, ond os yw hi gennych wrth law, dylech ei darparu i helpu i ddangos tystiolaeth o'ch cais.<br><br>Llythyr gan Wasanaeth Llesiant Myfyrwyr y Brifysgol - os nad ydych wedi cael apwyntiad gydag aelod o'r Gwasanaeth Llesiant Myfyrwyr | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>◦ Cadarnhad gan Dîm Cynhwysiant y Brifysgol - os nad ydych wedi cael apwyntiad gydag aelod o'r Tîm Cynhwysiant cyn dyddiad eich cais EC, bydd angen i chi fynd at eich meddyg teulu (neu weithiwr cyswllt) am lythyr o gefnogaeth.<br>◦ Ar gyfer Myfyrwyr Partner, gall Gwasanaeth Llesiant eich Sefydliad (neu swyddogaeth gefnogi arall) ddarparu'r dystiolaeth hon. |

| Amgylchiadau | Gwybodaeth Ychwanegol | Enghreifftiau o Dystiolaeth |
|---|---|---|
| | cyn dyddiad eich cais EC, bydd angen i chi fynd at eich meddyg teulu neu weithiwr cyswllt am lythyr o gefnogaeth. **Peidiwch â chyflwyno delweddau o bresgripsiynau a meddyginiaeth neu rannau o'r corff (gan gynnwys lluniau o anafiadau a gafwyd, pelydrau-x, sganiau uwchsain, ac ati).** Ni ellir eu derbyn fel tystiolaeth ar gyfer hawliad a gallai beri gofid i'r staff sy'n edrych ar eich tystiolaeth. | |
| **Derbyn i'r ysbyty** | Os ydych wedi cael eich derbyn i'r ysbyty ar fyr rybudd ac na allwch gyflwyno hawliad eich hun, cysylltwch â'ch tiwtor personol am gymorth i gyflwyno'r hawliad ar eich rhan. Os byddwch yn analluog iawn, gallai eich Perthynas Agosaf neu ffrind dibynadwy arall gysylltu (â'ch tiwtor personol) ar eich rhan. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  ◦ Llythyr meddygol neu dystysgrif gan yr ysbyty/ward perthnasol yn cadarnhau natur a difrifoldeb eich amgylchiadau.<br>  ◦ Crynodeb rhyddhau o'r Ysbyty |
| **Salwch, anaf neu driniaeth feddygol gan gynnwys iechyd meddwl** | **Pryd y byddwch wedi'ch effeithio**: Dylai eich tystiolaeth ddisgrifio eich salwch, anaf neu driniaeth feddygol a'r effaith y mae'n ei chael ar eich gallu i baratoi ar gyfer a/neu ymgymryd â'ch asesiad.<br><br>Rhaid cael tystiolaeth feddygol gan y person, practis neu sefydliad a wnaeth ddiagnosis neu asesodd y salwch/anaf ar yr adeg y digwyddodd. Mae tystiolaeth eich bod wedi dweud eich bod yn sâl ar ôl y digwyddiad neu salwch, neu nad yw'n cynnwys diagnosis clir, yn annhebygol o gael ei derbyn. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  ◦ Rhaid i dystiolaeth nodi amser a hyd eich amgylchiadau a chynnwys barn feddygol glir lle bynnag y bo modd. Gall fod yn un neu fwy o'r canlynol:<br>    ▪ Tystysgrif feddygol wreiddiol;<br>    ▪ Llythyr gan weithiwr meddygol proffesiynol / cyswllt priodol;<br>    ▪ Llythyr gan wasanaeth o fewn Myfyrwyr a Bywyd Campws fel y Tîm Cwnsela ac Iechyd |

| Amgylchiadau | Gwybodaeth Ychwanegol | Enghreifftiau o Dystiolaeth |
|---|---|---|
| | **Peidiwch â chyflwyno delweddau o bresgripsiynau a meddyginiaeth neu rannau o'r corff (gan gynnwys lluniau o anafiadau a gafwyd, pelydrau-x, sganiau uwchsain, ac ati).** Ni ellir eu derbyn fel tystiolaeth ar gyfer hawliad a gallai beri gofid i'r staff sy'n edrych ar eich tystiolaeth.<br><br>**COVID**: Dim ond fel a ganlyn y gellir gwneud hawliadau sy'n ymwneud â Covid:<br><br>Ar gyfer arholiadau/asesiadau ar y campws gallwch gyflwyno EC ar gyfer GOHIRIO YN UNIG. | Meddwl neu Lesiant Myfyrwyr. Sylwch mai dim ond os ydych wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth ac wedi derbyn cymorth dros gyfnod sy'n berthnasol i'ch cais y gall y timau ddarparu llythyrau ar gyfer hawliadau amgylchiadau esgusodol. |
| **Gwasanaeth rheithgor** | Os gofynnir i chi gyflawni Gwasanaeth Rheithgor, rhaid i chi wneud cais i'r Llys iddo gael ei ohirio. Dim ond os gwrthodir y cais hwn y bydd eich amgylchiadau esgusodol yn cael eu hystyried yn dderbyniol. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  • Bydd angen i chi ddarparu gohebiaeth gan y Llys a phrawf eich bod wedi gofyn am ohirio a bod y cais wedi'i wrthod. |
| **Gwasanaeth/Lleoliad Milwrol Gorfodol** | Mae'n berthnasol i weithwyr milwrol, wrth gefn, gwirfoddol a brys. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  • Llythyr ar bapur pennawd yn disgrifio'r lleoliad gan gynnwys dyddiadau. |
| **Absenoldeb tadolaeth/rhiant** | Rhaid bod yn anrhagweladwy – hy absenoldeb mabwysiadu ar ôl cael gwybod y bydd plentyn | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y |

| Amgylchiadau | Gwybodaeth Ychwanegol | Enghreifftiau o Dystiolaeth |
|---|---|---|
| | yn cael ei leoli, neu os bydd genedigaeth gynamserol. | parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>• Tystiolaeth o leoli plentyn drwy fabwysiadu ar fyr rybudd, neu<br>• Tystysgrif geni yn dangos dyddiad geni a'r berthynas â'r myfyriwr neu dystiolaeth briodol o feichiogrwydd yn dangos wythnos ddisgwyliedig y geni (EWC), er enghraifft i fyfyrwyr y DU, ffurflen MATB1. |
| **Beichiogrwydd** | Os byddwch yn beichiogi neu os bydd eich partner yn beichiogi, efallai y bydd angen i chi gyflwyno ceisiadau am estyniad neu hawliadau amgylchiadau esgusodol ar gyfer apwyntiadau. Cyn gynted ag y byddwch yn dod yn ymwybodol o feichiogrwydd, dylech fynd at eich Tîm Rhaglen i weithio gyda chi ar Gynllun Dysgu. Ysgrifennir hwn mewn ymgynghoriad â chi'ch hun, a bydd yn ystyried yr addasiadau sydd eu hangen.<br><br>Gweler Polisi Beichiogrwydd y Brifysgol yma a nodwch efallai y bydd angen Asesiad Risg arnoch hefyd yn dibynnu ar eich cwrs astudio ac ati. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>• Dylech ddarparu llythyr apwyntiad neu lythyr meddygol. |
| **Gwyliau Crefyddol / Diwrnodau Sanctaidd** | Bydd y Brifysgol yn ymdrechu lle bynnag y bo modd, i barchu dyddiau Gŵyl pob crefydd. Os na allwch fynychu digwyddiad dysgu, cyflwyno asesiad neu fynychu arholiad, nodwch pa ddigwyddiad crefyddol yr hoffech ei fynychu. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>• Tystiolaeth o'r ŵyl, unrhyw amodau sy'n berthnasol i chi ynghylch ymddygiad neu ddigwyddiadau ar yr ŵyl honno. |

| Amgylchiadau | Gwybodaeth Ychwanegol | Enghreifftiau o Dystiolaeth |
|---|---|---|
| **Cynrychioli'r Brifysgol/Coleg Partner mewn digwyddiad cenedlaethol** | Rhaid i'ch datganiad ategol esbonio pam y dylid ystyried y digwyddiad yn un arwyddocaol. | • Llythyr o gadarnhad gan y corff trefnu perthnasol. |
| **Anawsterau dysgu penodol (SpLD) (gan gynnwys oedi cyn cael cymorth anabledd wedi'i ariannu gan y DSA)** | Os oes gennych Anhawster Dysgu Penodol (SpLD) a bod gennych addasiadau cymeradwy sy'n caniatáu amser ychwanegol i chi mewn arholiadau, bydd y wybodaeth hon ar gael ar y system eVision i'ch tiwtor gael mynediad iddi, fel tystiolaeth i gefnogi cais am estyniad amser i gyflwyno gwaith cwrs.<br><br>Ar gyfer Myfyrwyr Partner gall y dystiolaeth hon ddod gan dîm Cynhwysiant y Coleg Partner neu gyfwerth. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  • Eich Crynodeb o Addasiad Rhesymol yn y Brifysgol.<br>  • Llythyrau Corff Ariannu yn ymwneud â DSA<br>  • Cais DSA / tystiolaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer y cais<br>  • Adroddiad Asesu Anghenion Astudio yn dangos yr addasiadau sydd eu hangen |
| **Digwyddiad Teithio a/Neu Tywydd Garw Difrifol** | Os ydych wedi methu arholiad neu gyflwyniad oherwydd anawsterau teithio er enghraifft; neu gyfarwyddyd i aros gartref / gwacáu oherwydd tywydd garw. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  • Adroddiad newyddion am yr anawsterau;<br>  • Cyhoeddiad gan y Gweithredwr Rheilffyrdd neu neges destun / e-bost a anfonwyd atoch.<br>  • Rhagolygon y tywydd / Cyngor / Rhybuddion (Swyddfa Dywydd y DU neu Swyddfa partner gwlad gyfwerth) |
| **Gwall gweinyddol neu weithdrefnol y Brifysgol** | Gwall gweinyddol neu weithdrefnol gan y Brifysgol sy'n cael effaith sylweddol, negyddol ar eich gallu i astudio ar gyfer asesiad neu ymgymryd ag asesiad. | • Disgrifiad manwl yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau, eu heffaith arnoch chi, a'r cyfnod y parhaodd yr effaith. Os yn bosibl, cynhwyswch hefyd:<br>  • Dylech ddarparu (lle bo'n bosibl) e-byst a/neu |

| Amgylchiadau | Gwybodaeth Ychwanegol | Enghreifftiau o Dystiolaeth |
|---|---|---|
| | | sgrinluniau o'r afreoleidd-dra sy'n dangos dyddiadau a llwybr e-bost yn glir. |